# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 28 Tachwedd 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4661

# 103

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.17

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant: Gwella Canlyniadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal

Dechreuodd yr eitem am 14.49

## 4 Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Datgelu a Ganiateir) (Cymru) 2017

Dechreuodd yr eitem am 15.41

**NDM6577** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Datgelu a Ganiateir) (Cymru) 2017 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Hydref 2017.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5 Dadl: Entrepreneuriaeth: Pwrpas Cenedlaethol

Dechreuodd yr eitem am 15.47

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM6578** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod bod entrepreneuriaeth a mentrau bach a chanolig yn allweddol i Gymru o safbwynt creu gwell swyddi a chefnogi buddsoddiad a bod gan Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, swyddogaeth allweddol o safbwynt creu'r amgylchedd cywir a chefnogi'r seilwaith.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn rhwydwaith o ganolbwyntiau entrepreneuraidd ym mhob rhan o Gymru.

Yn cynnig defnyddio'r cronfeydd trafodiadau ariannol newydd a ddyrannwyd i Gymru gan Lywodraeth y DU i greu cronfa fuddsoddi busnesau bach a chanolig newydd ar gyfer Banc Datblygu Cymru.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu corff arloesi cenedlaethol penodedig, fel partneriaeth rhwng busnes, llywodraeth a'r byd academaidd i gynyddu lefelau datblygu o ran cynhyrchion newydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 19 | 0 | 25 | 44 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM6578** [Julie James (Gorllewin Abertawe)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod bod entrepreneuriaeth a mentrau bach a chanolig yn allweddol i Gymru o safbwynt creu gwell swyddi a chefnogi buddsoddiad a bod gan Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, swyddogaeth allweddol o safbwynt creu'r amgylchedd cywir a chefnogi'r seilwaith.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 0 | 44 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 6 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 16.37

**Am 16.38, cafodd y trafodion eu hatal dros dro am 10 munud. Cafodd y gloch ei chanu 5 munud cyn ailgynnull ar gyfer dadl Cyfnod 3 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru).**

## 7 Dadl: Cyfnod 3 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 16.48

Cafodd y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 fel y cytunwyd gan y Cynulliad ar 21 Tachwedd 2017.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 35 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 35 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Ni chynigiwyd gwelliannau 13 a 14.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 35 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

**Gan fod gwelliant 7 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 8.**

**Gan fod gwelliant 5 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 9.**

**Derbyniwyd gwelliant 15, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 16, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 10:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 34 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 10.**

**Gan fod gwelliant 5 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 11.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 12:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 35 | 49 |

**Gwrthodwyd gwelliant 12.**

**Gan fod gwelliant 5 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 1.**

**Gan fod gwelliant 6 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 2.**

**Gan fod gwelliant 5 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 3.**

**Gan fod gwelliant 12 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 4.**

**Barnwyd bod holl adrannau ac atodlenni'r Bil wedi'u derbyn, gan ddod â thrafodion Cyfnod 3 i ben.**

Daeth y cyfarfod i ben am 18.01

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 29 Tachwedd 2017**